



Cwmpawd Gwledig Cymru

Wales Rural Compass

Tyfu'r Potensial

Dros y degawdau diwethaf mae Cymru wledig wedi elwa'n sylweddol o weithredu Cynlluniau Datblygu Gwledig, ac yn enwedig y rhaglen LEADER. Rydym ni wedi gweld sut mae'r gwaith hwn wedi helpu i arallgyfeirio gweithgarwch economaidd gwledig, cryfhau cymunedau gwledig, darparu cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol, ymgysylltu â grwpiau ymylol, ailgysylltu pobl â'u treftadaeth leol, a hyrwyddo cynaliadwyedd. Mae wedi gwneud hyn drwy harneisio arloesedd o fewn ardaloedd. Rydym ni wedi gweld cymunedau gwledig yn cael eu grymuso ac mae cenhedlaeth o arweinwyr gwledig yn barod i sbarduno datblygiad sy'n briodol yn lleol.

Rydym ni'n pryderu y gellid colli'r llwyddiannau hyn wrth i ddatblygiadau gwledig arloesol a arweinir yn lleol gael eu gwasgu allan rhwng rheoli tir yn gynaliadwy a buddsoddi economaidd rhanbarthol. Rydym ni'n pryderu am ddiffyg cynllun cydgyssylltiedig i fynd i'r afael â heriau gwledig a rennir ledled Cymru mewn cynigion polisi cyfredol ac am gollu cyllid gwarantiedig ar gyfer datblygu gwledig yn y gymuned, gyda chymunedau gwledig yn gorfod cystadlu yn erbyn cymunedau trefol. Rydym ni'n pryderu bod cyfle unigryw i ddwyn ynghyd y dull gwirioneddol gyfannol, integredig o ymdrin â pholisi y mae ar Gymru wledig ei angen yn cael ei gollu.

Yn ei ddatganiad i'r Senedd ar 23 Chwefror 2021, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig Lesley Griffiths: "Bydd angen i ddyfodol datblygu gwledig gefnogi cyfiawnder cymdeithasol wrth drosglwyddo i economi sero-net. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol gefnogi sgiliau a chyflogaeth sy'n galluogi gwyrddu diwydiannau gwledig wrth hyrwyddo cynhwysiant, gwaith teg a defnydd o'r Gymraeg." Rydym ni'n cefnogi'r uchelgais hwn, ond yn dadlau na ellir ei wireddu heb ganolbwyntio ar bobl a harneisio galluoedd cymunedau gwledig.

Dylai cynrychiolwyr etholedig o bob plaid yn y dyfodol ymrwymo i ddull arloesol yn y gymuned o ymdrin â datblygu gwledig. Rydym ni'n galw am wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ymateb i leisiau cymunedol, ac yn effro i effeithiau polisi ar anghydraddoldebau gwledig. Dylid gwarantu cyllid ar gyfer rhaglen arloesi cymunedol, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd yn y Cynllun Datblygu Gwledig diwethaf.

Rydym ni wedi ymrwymo i gydweithio dros gymunedau gwledig; i rannu ein gwybodaeth a'n profiad; i feithrin cysylltiadau â chymunedau gwledig mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol; i helpu cymunedau gwledig i gael eu clywed; a mynd ar drywydd y nod o Gymru wledig gynaliadwy, wydn, cynhwysol a mwy cyfiawn.

Rydym ni'n grŵp o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y Gymru wledig, gyda blynyddoedd lawer o brofiad o bolisi economaidd a arweinir gan y gymuned. Byddwn yn adeiladu ar y dadleuon a nodir yn y datganiad hwn mewn Symposiwm ym mis Mai 2021.

Antur Teifi

Cadwyn Clwyd

Menter Môn

PLANED

Dr Liz Bickerton

Wynfford James

Gerallt Llewellyn Jones